**Cyfarfodydd Cyd-bwyllgor yr AHNE**

**21 Mehefin 2019**

**Eitem 11**

# CYNLLUNIO A DATBLYGU YN YR AHNE:

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018/2019

## Cefndir

1. Mae'r amgylchedd adeiledig yn un o nodweddion arbennig yr AHNE ac yn cyfrannu tuag at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal. Mae yna alw am ddatblygiadau newydd yn yr AHNE a'r ardal gyfagos oherwydd bod yr ardal yn lle atyniadol i fyw, gweithio ac ymweld â hi, ac mae angen gofal arbennig er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd yn cyd-fynd yn dda â'r dirwedd. Rôl bwysig y Cyd-bwyllgor a'r Bartneriaeth yw cynghori ar bolisïau datblygu a chynigion sy'n effeithio'r AHNE.

## Ymgynghoriadau

2. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgynghoriadau (222 neu 79% ohonynt) yn geisiadau cynllunio neu'n geisiadau cysylltiedig ar gyfer datblygu, a gyfeiriwyd gan y tri awdurdod cynllunio lleol. Fel y gellir disgwyl, roedd y rhan fwyaf ohonynt (79%) o Sir Ddinbych, gyda 21% ohonynt o Sir y Fflint a 3% o Wrecsam. Mae ceisiadau ffurfiol ac anffurfiol am gyngor cyn ac ar ôl ymgeisio yn parhau i gyfrif am ganran sylweddol o'r holl ymgynghoriadau a dderbynnir (38 cais, 13% o'r cyfanswm), ond mae hyn yn fymryn yn llai na'r llynedd. Roedd materion yn ymwneud â pholisi (18) yn cyfrif am 6% o'r holl ymgynghoriadau, sydd ychydig yn uwch na'r llynedd. Mae'r ymgynghoriadau eraill wedi cynnwys apeliadau cynllunio (4) a Phrosiectau Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (1).

3. Mae crynodeb o'r holl ymgynghoriadau cynllunio y bu i'r AHNE ymateb iddynt yn ystod y flwyddyn i'w weld yn yr atodiadau sy'n ymdrin â'r ddau gyfnod hanner blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys manylion y cynnig, crynodeb o sylwadau'r AHNE, penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol (os gwnaethpwyd penderfyniad) ac asesiad o'u hymateb i sylwadau'r AHNE.

4. Mae'r categorïau mwyaf o gynigion yn parhau i fod yn ddatblygiadau deiliad tŷ (35%) ac yn ddatblygiadau preswyl (22%), gan gynnwys addasiadau. Mae nifer y cynigion datblygu sy'n ymwneud â thwristiaeth yn parhau i gynyddu (19%) a hwn rŵan yw'r trydydd categori datblygu mwyaf, cyn amaethyddiaeth/coedwigaeth (8%) a chynigion masnachol/manwerthu a diwydiannol (7%). Mae'r ymgynghoriadau sy'n weddill yn cynnwys materion egni, adeiladau rhestredig, hysbysebion a datblygiadau cymunedol a gwastraff. Roedd yr ymgynghoriad Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn ymwneud â chais cwmpasu Asesu'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer fferm wynt bosibl yng Nghoedwig Alwen.


5. Rhoddwyd caniatâd i'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio (83%), sy'n gymaradwy â graddfa gymeradwyo blynyddoedd blaenorol. Dim ond 13% cais a wrthodwyd, a thynnwyd 4% o geisiadau yn ôl gan yr ymgeiswyr cyn y gwnaethpwyd penderfyniad arnynt.

6. Ni chododd yr AHNE wrthwynebiad i'r rhan fwyaf o geisiadau, dim ond awgrymu newidiadau i'r dyluniad, deunyddiau amgen neu dirlunio ychwanegol neu amodau golau er mwyn ceisio cadw a gwella cymeriad ac ymddangosiad yr AHNE. Cafwyd 16 gwrthwynebiad ffurfiol i gynigion datblygu, a mynegwyd pryderon sylweddol ynghylch 27 cais pellach.

**Ymateb yr Awdurdod Cynllunio Lleol i Sylwadau'r AHNE**

7. Mae dadansoddiad o ymatebion yr Awdurdod Cynllunio Lleol i sylwadau o sylwedd a wnaethpwyd gan yr AHNE ar geisiadau cynllunio sydd wedi'u penderfynu arnynt (gweler y siart cylch) yn dangos bod y mwyafrif o'r sylwadau a wnaed gan yr AHNE wedi'u derbyn yn llawn (47%) neu'n rhannol (34%), sy'n well na'r llynedd. Cafodd 19% o'r sylwadau eu gwrthod gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, neu ni wnaethant weithredu arnynt, sy'n well na'r 26% a wrthodwyd y llynedd. Gall y gwelliant yn y perfformiad fod yn rhannol oherwydd yr ymdrechion i wella'r berthynas rhwng yr AHNE a'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r swyddogion cynllunio, ynghyd â mwy o ymwybyddiaeth yn sgil mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol yr AHNE yn 2018.


8. O'r 21 sylw na dderbyniwyd gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol, penderfynwyd ar 17 cais gan Sir Ddinbych a 4 gan Sir y Fflint. Ni chafwyd achosion yn Wrecsam lle na chafodd sylwadau'r AHNE eu derbyn yn llawn neu'n rhannol. Gan ystyried yr holl benderfyniadau sydd wedi'u gwneud gan bob awdurdod, roedd canran yr achosion lle na dderbyniwyd neu gweithredwyd ar sylwadau'r AHNE yn 20% yn Sir Ddinbych ac yn 16% yn Sir y Fflint. Mae hyn yn well na'r llynedd lle'r oedd y canran yn 25% yn Sir Ddinbych a 36% yn Sir y Fflint.




9. Ar y cyfan, roedd y sylwadau a wrthodwyd yn ymwneud â dyluniad, deunydd, golau a thirlunio, ac awgrymiadau ar gyfer gwella fel rhan o brosiect datblygu. Derbyniodd yr Arolygiaeth Gynllunio ymateb yr AHNE i ymgynghoriad cwmpas Asesu Effaith Amgylcheddol Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol mewn perthynas â fferm wynt Coedwig Alwen yn llawn.

10. Er na dderbyniodd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol sylwadau'r AHNE bob tro, mae dadansoddiad pellach o benderfyniadau'r achosion arwyddocaol lle cyflwynodd yr AHNE wrthwynebiad ffurfiol i gais yn dangos bod barn yr AHNE wedi'i derbyn yn llawn gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn y rhan fwyaf o'r achosion. O'r 9 gwrthwynebiad a gyflwynodd

yr AHNE lle cafwyd penderfyniad, bu i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wrthod 7 cais a chymeradwyo 2. Ymhellach i hynny, roedd un o'r ceisiadau a gymeradwywyd wedi 'ei ddiwygio'n sylweddol er mwyn mynd i'r afael â gwrthwynebiad yr AHNE. Felly, yn y rhan fwyaf o'r achosion arwyddocaol, derbyniwyd sylwadau'r AHNE yn llawn (78%) neu'n rhannol (11%), sy'n uwch o lawer na'r darlun cyffredinol (gweler y siart cylch isod). Dylid hefyd nodi bod 4 cais arall, lle cyflwynodd yr AHNE wrthwynebiad iddynt, wedi'u tynnu'n ôl gan yr ymgeisydd cyn y gwnaethpwyd penderfyniad arnynt, yn aml iawn oherwydd lefel y gwrthwynebiad i'r cynigion.




**Apeliadau Cynllunio**

11. O'r pedair apêl a gyfeiriwyd at yr AHNE yn ystod y flwyddyn, gwrthodwyd tri gan yr arolygydd a chaniatawyd un. Roedd y ceisiadau hyn yn cynnwys Apêl Adeilad Rhestredig ar gyfer newid ffenestri pren am rai uPVC, cais Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer safle carafanau a gwersyll yng Ngorsaf Carrog ac estyniad mawr i annedd ger Llanarmon-yn-Iâl. Bu i'r AHNE wrthwynebu neu fynegi pryderon am y tri chais yma, ac fe gafodd hynny ei ystyried gan yr arolygiaeth. Caniatawyd datblygiad ar gyfer storfa byrddau crai yn Kronospan, y Waun ar ôl apêl. Roedd yr arolygydd wedi ystyried pryderon yr AHNE ac eraill ynghylch effeithiau niweidiol posibl, ond daeth i'r casgliad nad oedd y rhain yn ddigon sylweddol i wrthod caniatâd.

**Datblygiadau Heb Awdurdod**

12. Yn ystod y flwyddyn cyfeiriwyd 19 achos posibl o ddatblygiad heb awdurdod a oedd yn effeithio ar yr AHNE at dimau gorfodi'r Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn iddynt ymchwilio iddynt. Roedd 11 achos yn Sir Ddinbych ac 8 yn Sir y Fflint, Ni chafwyd achos o Wrecsam. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys gwaith peirianneg/tipio, tai allan, cynwysyddion llongau, carafanau/chalets, storfa gerbydau, gwaith mynediad, llety cŵn, cyfyngiadau llwybr troed cyhoeddus, gwaith ar goed a diffyg cydymffurfio ag amodau. Safle o ddiddordeb penodol yw Field Cottage, Gwaunysgor, lle cafwyd sawl achos o dorri rheolaethau cynllunio yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gwaith cloddio a pheirianneg sylweddol, creu pwll addurniadol a chodi ffensys diogelwch a gatiau salw. Mae materion gorfodi fel rheol yn gymhleth iawn ac mae'n cymryd cryn amser i'r awdurdodau cynllunio ymchwilio iddynt a'u datrys, a cheir nifer o achosion heb eu datrys.

**Ymgynghoriadau Polisi/Strategol**

13. Cyfeiriwyd 18 o ymgynghoriadau polisi a strategol at yr AHNE yn 2018-19. Llywodraeth Cymru oedd y ffynhonnell fwyaf arwyddocaol o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn, a bu i'r AHNE wneud sylwadau ar 8 dogfen bolisi, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 10; Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Materion a Dewisiadau; Cyfuno ac Adolygu Is-ddeddfwriaeth; Polisi Echdynnu Petroliwm; Llwybr Carbon Isel i Gymru; Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd 2018-23; Darparu Tai drwy'r System Gynllunio a Chynllun Drafft Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r AHNE hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

14. Mae'r awdurdodau cynllunio wedi parhau i ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) yn ystod y flwyddyn, ac mae'r AHNE wedi ymateb i Gynllun Wedi'i Adneuo CDLl Wrecsam ac ymgynghoriadau Newidiadau Ffocws. Mae Sir y Fflint hefyd wedi ymgynghori gyda'r AHNE ynghylch eu Polisi Gorfodi Cynllunio Drafft. Mae'r AHNE hefyd wedi ysgrifennu at y tri awdurdod cynllunio ynglŷn â phwysigrwydd a gorfodi amodau cyn-gychwyn.

15. Cyflwynwyd sylwadau i Gyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'u hadolygiad o Sensitifrwydd y Tirlun ac Asesu Capasiti ac i'r Grid Cenedlaethol mewn perthynas â'r Ymgynghoriad Amgylchedd Rhwydwaith Trawsyrru Trydan. Mae'r AHNE hefyd wedi cefnogi a darparu sylwadau ar Gynllun Rheoli Drafft Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr Pontcysyllte a'r Gamlas.

**Gweithgor Cymeriad y Dirwedd a'r Amgylchedd Adeiledig**

16. Mae Gweithgor Cymeriad y Dirwedd a'r Amgylchedd Adeiledig Partneriaeth yr AHNE yn arwain ar faterion cynllunio a datblygu sy'n effeithio ar yr AHNE. Mae'r grŵp wedi cyfarfod deirgwaith yn ystod y flwyddyn ac yn parhau i ddatblygu ac adolygu'r rhaglen gwaith i'r dyfodol, sy'n blaenoriaethu camau gweithredu sy'n codi o'r Cynllun Rheoli. Yn ogystal â darparu sylwadau ar faterion polisi a chynigion datblygu mawr, mae'r grŵp wedi datblygu nifer o gamau gweithredu pwysig sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rheoli. Y camau mwyaf arwyddocaol yw Menter Awyr Dywyll yr AHNE, lleihau amhariad gweledol, monitro newid yn y tirlun a datblygu perthynas yr AHNE gyda'r Awdurdodau Cynllunio Lleol.

17. Fel rhan o'r gwaith i ymateb i geisiadau cynllunio, mae'r grŵp wedi mynegi pryder ynghylch nifer y sylwadau a wrthodir gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae'r grŵp yn cydnabod yr angen i ddatblygu a gwella perthynas yr AHNE gyda swyddogion cynllunio a phwyllgorau ac felly wedi trefnu dau weithdy gydag uwch swyddogion cynllunio Sir Ddinbych ar reoli datblygu a gorfodi cynllunio. Mae'r rhain wedi helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu'r ddau sefydliad.

18. Cafodd dyhead yr AHNE i sicrhau cydnabyddiaeth Awyr Dywyll ffurfiol ar gyfer yr ardal gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol ei datblygu mewn partneriaeth â'r tirweddau eraill sydd wedi'u hamddiffyn yng ngogledd Cymru, drwy'r Swyddog Awyr Dywyll a benodwyd ar y cyd. Yn ogystal, mae datblygu gwell dealltwriaeth rhwng yr AHNE a'r awdurdodau golau stryd, ac archwilio a dysgu o fentrau awyr dywyll mewn mannau eraill yn y DU, hefyd wedi bod ar y rhaglen waith ar gyfer eleni. Dylid hefyd nodi bod yr AHNE, wrth wneud sylwadau ar geisiadau cynllunio, yn hyrwyddo'r angen am oleuadau awyr dywyll addas pe byddai

hynny'n broblem, ac mae Awdurdodau Cynllunio Lleol bellach yn rhoi mwy o ystyriaeth i hynny.

19. Mae cynnydd pellach wedi'i wneud ar leihau amhariadau gweledol drwy Fenter Gwella'r Tirlun y Grid Cenedlaethol yn Nyffryn Morwynion a Thremeirchion, ac mae gwaith pellach yn mynd rhagddo gyda Scottish Power i dynnu llinellau trydan uwchben a'u gosod o dan y ddaear ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr a Rhaeadr y Bedol. Mae ymdrechion yn parhau i sicrhau mesurau lliniaru ac, yn ddelfrydol, symud Gwaith Trin Carthion Pontcysyllte, sy'n tynnu oddi ar werth cyffredinol eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd. O ran monitro newid yn y tirlun, un o feysydd o bryder a amlygwyd gan y Gweithgor yw effaith bosibl clefyd coed ynn ar y dirwedd ac felly cynhaliwyd arolwg i asesu'r broblem yn Nyffryn Alun a'r ardal gyfagos. Cafodd y posibilrwydd o fonitro newid yn y tirlun yn y tymor hir, drwy brosiect ffotograffiaeth safle sefydlog gan fanteisio ar gyfraniad gwirfoddolwyr, hefyd ei gefnogi gan y grŵp.